# Arolwg ar Chwaraeon Ysgol
# Survey

## Cyflwr y Genedl 2018

sportwales
chwaraeoncymru

## Prif Ganfyddiadau

**48%** o ddisgyblion ym Mlynyddoedd 3-11 yn cymryd rhan mewn chwaraeon allgyrsiol neu gymunedol dair gwaith neu fwy yr wythnos. Nid yw hyn wedi newid ers 2015.

Mae cyfrannau tebyg o ddisgyblion cynradd ac uwchradd yn cymryd rhan mewn chwaraeon allgyrsiol neu gymunedol dair gwaith neu fwy yr wythnos – **47%** o ddisgyblion cynradd ym Mlynyddoedd 3-6 a **48%** o ddisgyblion uwchradd ym Mlynyddoedd 7-11.

Ceir gwahaniaeth o hyd rhwng y rhywiau o ran lefelau cymryd rhan, gyda **50%** o fechgyn a **46%** o ferched yn cymryd rhan mewn chwaraeon allgyrsiol neu gymunedol dair gwaith neu fwy yr wythnos.

Hefyd mae'r lefelau cymryd rhan yn amrywio yn ôl oedran, ethnigrwydd, anabledd ac amddifadedd cymharol disgyblion. Yn 2017/18, dangosodd yr arolwg, o gymharu â Chymru gyfan, bod canrannau uwch wedi'u cofnodi ar gyfer y canlynol:

- Disgyblion ym Mlynyddoedd 5 a 6 (**51%**)
- Disgyblion ethnigrwydd cymysg/niferus (**52%)**
- Disgyblion FSM1 (**55%**)[1]
- Disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn rhugl (**57%**)

Mae **63%** o ddisgyblion yn mwynhau gwersi AG 'yn fawr' a **48%** o ddisgyblion yn mwynhau gwneud chwaraeon mewn clybiau ar ôl ysgol neu yn ystod amser cinio (chwaraeon allgyrsiol) 'yn fawr'.

Mae **56%** o ddisgyblion yn meddwl bod gwersi AG a chwaraeon ysgol yn eu helpu 'yn fawr' i fyw yn iach.

[1] *Defnyddir canran y disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim (FSM) fel mesur procsi o statws economaidd-gymdeithasol. Mae gan yr ysgolion yn Chwartel Prydau Ysgol Am Ddim 1 (FSM1) lefelau isel o ddisgyblion yn gymwys am FSM – ac maent yn cael eu hystyried fel y rhai lleiaf difreintiedig. Mae gan ysgolion yn FSM4 lefelau uchel o ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim ac felly maent yn cael eu hystyried fel y rhai mwyaf difreintiedig.*

## Cyflwyniad

Mae’r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru yn glir: **Creu Cenedl Egnïol Lle Gall Pawb Fwynhau Chwaraeon Am Oes**. Ein cenhadaeth: **Datgloi Manteision Chwaraeon i Bawb**. Mae’r Arolwg ar Chwaraeon Ysgol yn gwerthuso chwaraeon ymhlith pobl ifanc, gan ddeall eu mwynhad o chwaraeon, ac mae’n sail i’r camau sy’n ofynnol er mwyn datgloi manteision chwaraeon.

Mae’r Arolwg ar Chwaraeon Ysgol yn arolwg ar-lein ar gyfranogiad disgyblion mewn chwaraeon a’r ddarpariaeth mewn ysgolion o Addysg Gorfforol [AG] a chwaraeon. Yn dilyn llwyddiant yr Arolwg ar Chwaraeon Ysgol yn 2013 a 2015, cynhaliwyd yr arolwg presennol yn nhymor yr haf 2018 rhwng 16eg Ebrill a 24ain Gorffennaf.

Llenwodd y disgyblion holiadur am eu cyfranogiad a’u hagweddau tuag at AG a chwaraeon. Gofynnwyd i aelod o staff o bob ysgol lenwi holiadur ar y ddarpariaeth AG a chwaraeon yn eu hysgol. Fel rheol mae hwn yn cael ei lenwi gan y cydlynydd AG mewn ysgolion cynradd neu’r pennaeth AG mewn ysgolion uwchradd.

Mae data’r arolwg hwn yn galluogi Chwaraeon Cymru a’i bartneriaid i fonitro tueddiadau cyfranogiad chwaraeon yn strategol, gan roi sylw i chwaraeon allgyrsiol a chymunedol. Hefyd mae’r arolwg yn galluogi tracio’r ddarpariaeth AG mewn ysgolion, yn ogystal ag agweddau athrawon a disgyblion at AG a chwaraeon. Mae hyn yn darparu sylfaen o dystiolaeth ar gyfer llunio ein polisïau a’n harferion.


Mae’r ystadegau a gyflwynir yn y papur hwn a’r gyfres genedlaethol sy’n cyd-fynd o dablau data’n canolbwyntio ar ddisgyblion mewn ysgolion prif ffrwd ym Mlynyddoedd 3-11. Yn arolwg 2017/18, cymerodd **118,893** o ddisgyblion Blynyddoedd 3-11 ran yn yr arolwg a llenwodd **1,055** o athrawon holiadur darpariaeth yr Arolwg ar Chwaraeon Ysgol. Roedd hwn yn gynnydd ar y niferoedd a gymerodd ran yn 2015 – gan barhau i fod yr arolwg mwyaf yn y DU ar bobl ifanc a chwaraeon.

## AG yn y Cwricwlwm

Ers dau ddegawd bron, mae cydlynwyr AG mewn ysgolion cynradd a phenaethiaid AG mewn ysgolion uwchradd wedi llenwi holiadur ar y ddarpariaeth AG ar ran eu hysgol. Yn 2018, derbyniwyd **869** o ymatebion gan ysgolion cynradd a **186** gan ysgolion uwchradd.

Mae Ffigur 1 yn dangos y duedd o ran yr amser ar gyfartaledd sydd ar gael i AG gwricwlaidd yr wythnos. Ledled Cymru, mae cyfartaledd o **99** o funudau o AG yn cael ei ddarparu yng ngrwpiau blwyddyn 3 i 11 (**100** yn 2015). Ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd ym Mlynyddoedd 3-6, ceir cyfartaledd o **99 o funudau o AG yr wythnos**. Ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd ym Mlynyddoedd 7-11, ceir cyfartaledd o **95 o funudau o AG yr wythnos**.

**Ffigur 1.** *Y munudau ar gyfartaledd o AG gwricwlaidd yr wythnos – yn ôl blwyddyn arolygu*




## Agweddau at AG a Chwaraeon

Mae'r Arolwg ar Chwaraeon Ysgol wedi tracio agweddau disgyblion at AG a chwaraeon yn gyson, gan gofnodi eu mwynhau a'u hyder mewn chwaraeon, yn ogystal â'u cred am y cyfraniad y gall chwaraeon ac AG ei wneud tuag at eu lles, a'u profiadau o gael eu 'clywed' mewn chwaraeon.

### Is-bennawd: Mwynhad

Mae Ffigur 2 yn dangos mwynhad y disgyblion o chwaraeon mewn lleoliadau amrywiol – mewn gwersi AG, mewn clybiau chwaraeon yn yr ysgol (chwaraeon allgyrsiol) ac mewn chwaraeon y tu allan i'r ysgol (chwaraeon cymunedol). Gofynnwyd i'r disgyblion faint maent yn mwynhau gwneud chwaraeon yn y lleoliad hwnnw ac maent yn gallu ateb 'yn fawr', 'ychydig', neu 'dim o gwbl'.

**Ffigur 2.** *Mwynhad o chwaraeon – canran y disgyblion a atebodd 'yn fawr'*




Mae disgyblion ysgolion cynradd yn fwy tebygol o fwynhau AG a chwaraeon yn yr ysgol a'r tu allan iddi. Mae disgyblion ysgolion uwchradd 'eraill' yn llai tebygol o fwynhau AG, a chwaraeon allgyrsiol a chymunedol.

**Is-bennawd: Hyder**

Gofynnir i ddisgyblion pa mor hyderus ydynt wrth roi cynnig ar weithgareddau newydd. Yn gyffredinol, dywedodd **80%** eu bod yn 'hyderus iawn' neu 'hyderus'. Mae disgyblion gwrywaidd yn fwy tebygol o fynegi hyder – gyda **84%** yn 'hyderus iawn' neu 'hyderus' o gymharu â **76%** o ferched a **68%** o ddisgyblion yn nodi eu hunain fel 'arall'.

**Is-bennawd: Ffordd o Fyw Iach**

Gofynnir i ddisgyblion i ba raddau maent yn meddwl bod AG a chwaraeon ysgol yn eu helpu i gael ffordd o fyw iach. Yn gyffredinol, dywedodd **56%** o ddisgyblion ym Mlynyddoedd 3-11 eu bod yn meddwl bod AG a Chwaraeon Ysgol wedi eu helpu 'yn fawr' i gael ffordd o fyw iach.

Mae gwahaniaethau yn ôl oedran. Roedd **68%** o ddisgyblion cynradd yn meddwl bod AG a chwaraeon ysgol yn eu helpu i gael ffordd o fyw iach o gymharu â **46%** o ddisgyblion uwchradd.

**Is-bennawd: Llais disgyblion**

Gofynnir i ddisgyblion a ydynt yn teimlo bod eu syniadau am AG a chwaraeon yn cael sylw. Ledled Cymru, roedd **28%** o ddisgyblion yn teimlo bod eu syniadau am AG a chwaraeon yn cael sylw 'bob amser'. Fel gyda'r mesurau uchod, roedd gwahaniaeth yn ôl oedran a rhyw. Roedd y disgyblion oedd yn nodi eu hunain fel 'arall' yn llai tebygol o deimlo bod eu syniadau'n cael sylw (dywedodd **32%** o wrywod 'bob amser' o gymharu â **24%** o fenywod ac **20%** o ddisgyblion yn nodi eu hunain fel 'arall') gyda **33%** o ddisgyblion cynradd yn teimlo bod hyn yn wir o gymharu â **23%** o ddisgyblion uwchradd.

## Amledd y Cymryd Rhan

Ers 2011, mae'r Arolwg ar Chwaraeon Ysgol wedi cofnodi darlun manwl o amledd y cymryd rhan, fel ein bod yn gallu astudio'r nifer o weithiau yr wythnos mae disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon a chorfforol trefnus y tu allan i'r cwricwlwm.

Yng Nghymru yn 2018, cymerodd **48%** o ddisgyblion rhwng Blynyddoedd 3 ac 11 ran mewn gweithgaredd chwaraeon trefnus y tu allan i'r cwricwlwm (h.y. chwaraeon allgyrsiol neu glwb) neu dair gwaith neu fwy yr wythnos. Mae canran y disgyblion sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon allgyrsiol neu gymunedol o leiaf dair gwaith yr wythnos wedi cynyddu ers 2013, gyda **40%** wedi cymryd rhan dair gwaith neu fwy yr wythnos, ond mae'n parhau heb newid ers 2015.

O ran oedran ysgol, nid oes llawer o wahaniaeth: mae **48%** o ddisgyblion uwchradd a **47%** o ddisgyblion cynradd yn cymryd rhan yn awr mewn chwaraeon allgyrsiol neu gymunedol o leiaf dair gwaith yr wythnos. Fodd bynnag, mae gwahaniaeth rhwng y rhywiau'n parhau, gyda **46%** o fenywod o gymharu â **50%** o wrywod a **39%** o'r rhai'n nodi eu hunain fel 'arall' yn cymryd rhan mewn chwaraeon trefnus y tu allan i'r cwricwlwm o leiaf dair gwaith yr wythnos.

Ers 2013, mae'r arolwg wedi casglu data hefyd i ddisgrifio lefelau'r cyfranogiad chwaraeon ymhlith grwpiau ethnig gwahanol. Mae Tabl 1 yn dangos y gwahaniaeth mewn lefelau cymryd rhan o ran hil.

**Tabl 1.** *Canran y disgyblion sy'n cymryd rhan yn rheolaidd mewn chwaraeon allgyrsiol neu gymunedol yn ôl grŵp ethnig a blwyddyn.*


| *Grwpiau Ethnig* | 2013 | 2015 | 2018 |
|---|---|---|---|
| Gwyn | 41 | 49 | 49 |
| Hil Gymysg | 41 | 52 | 52 |
| Du/Du Prydeinig | 37 | 52 | 51 |
| Asiaidd/Asiaidd Prydeinig | 29 | 36 | 40 |
| Arab/Arall | 29 | 39 | 46 |
| Cyffredinol | **40** | **48** | **48** |

Gellir dadansoddi'r mesur ar gyfer cyfranogiad chwaraeon y tu allan i'r cwricwlwm yn fanylach drwy ystyried y nifer o weithiau yr wythnos mae


disgyblion yn cymryd rhan. Mae hyn yn galluogi i ni adnabod y disgyblion hynny sydd fwy neu lai'n debygol o fod yn egnïol.

Mae Ffigur 4 yn dangos y gwahaniaethau yn amledd cyfranogiad y disgyblion yn ôl rhyw, gyda Ffigur 5 yn dangos y cyfranogiad mewn chwaraeon y tu allan i'r cwricwlwm unwaith yr wythnos o leiaf yn ôl oedran ysgol a rhyw.

**Ffigur 4.** *Y nifer o weithiau yr wythnos mae disgyblion yn cymryd rhan mewn chwaraeon clwb allgyrsiol neu gymunedol yn ôl rhyw.*




**Ffigur 5.** *Cyfranogiad unwaith yr wythnos o leiaf mewn chwaraeon clwb allgyrsiol neu gymunedol yn ôl rhyw ac oedran ysgol.*




Mae'r data'n dangos bod canran uwch o ddisgyblion yn cymryd rhan (unwaith yr wythnos o leiaf) mewn lleoliadau clwb cymunedol o gymharu â lleoliadau allgyrsiol. Hefyd, mae cyfrannau is o ddisgyblion ysgolion uwchradd yn cymryd rhan mewn chwaraeon allgyrsiol.

**Is-bennawd: Statws economaidd-gymdeithasol a chyfranogiad**

Defnyddir canran y disgyblion yn yr ysgol sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim fel mesur procsi o statws economaidd-gymdeithasol plant ysgol yng Nghymru. Gosodir ysgolion yr arolwg mewn chwartel Prydau Ysgol Am Ddim (FSM) – mae gan chwartel FSM 1 ganran isel o ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim ac maent yn cael eu hystyried fel y rhai lleiaf difreintiedig, ac mae gan chwartel FSM 4 ganran uchel o ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim ac maent yn cael eu hystyried fel y rhai mwyaf difreintiedig. Mae Ffigur 6 y cyflwyno cyfranogiad mewn chwaraeon y tu allan i'r cwricwlwm dair gwaith neu fwy yr wythnos yn ôl statws economaidd-gymdeithasol y disgyblion.

**Ffigur 6.** *Canran y disgyblion sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon allgyrsiol neu gymunedol dair gwaith o leiaf yr wythnos yn ôl chwartel FSM.*





Er bod canran y disgyblion sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon y tu allan i'r cwricwlwm dair gwaith neu fwy yr wythnos wedi cynyddu fesul tipyn ers 2011, mae patrwm y cymryd rhan yn debyg yn y tri arolwg diwethaf.

Roedd y gwahaniaeth yn y cymryd rhan rhwng FSM1 a FSM4 yn 2015 yn **11%.** Y gwahaniaeth yn y cymryd rhan rhwng y ddau chwartel yma yn 2018 yw **13%**.

### Is-bennawd: Anabledd a chyfranogiad

Gofynnir i ddisgyblion a oes ganddynt anabledd neu nam. Yn 2018, roedd **47%** o'r rhai ddywedodd 'oes' yn cymryd rhan mewn chwaraeon allgyrsiol neu gymunedol dair gwaith yr wythnos o leiaf, o gymharu â **48%** o ddisgyblion a ddywedodd nad oedd ganddynt anabledd neu nam. Mae Ffigur 7 yn cyflwyno cyfranogiad disgyblion mewn chwaraeon yn ôl anabledd a rhyw.

**Ffigur 7.** *Canran y disgyblion yn cymryd rhan mewn chwaraeon y tu allan i'r cwricwlwm dair gwaith yr wythnos o leiaf yn ôl anabledd a rhyw.*



**Is-bennawd: Chwaraeon allgyrsiol**

Mae Tabl 2 yn dangos y deg gweithgaredd uchaf y mae disgyblion Blynyddoedd 3 i 11 fwyaf tebygol o gymryd rhan ynddynt yn ôl rhyw.

**Tabl 2.** *Y chwaraeon allgyrsiol yr oedd y disgyblion fwyaf tebygol o gymryd rhan ynddynt.*

| *Camp/Gweithgaredd* | Merched | *Camp/Gweithgaredd* | Bechgyn | *Camp/Gweithgaredd* | 'Arall' |
|---|---|---|---|---|---|
| Pêl droed | 41% | Pêl rwyd | 30% | Pêl droed | 21% |
| Rygbi | 27% | Rhedeg/loncian | 23% | Rygbi | 18% |
| Rhedeg/loncian | 26% | Rownderi/ pêl fas/pêl feddal | 22% | Rownderi/ pêl fas/pêl feddal | 17% |
| Athletau | 23% | Athletau | 22% | Athletau | 17% |
| Pêl osgoi | 22% | Pêl droed | 21% | Pêl osgoi | 16% |
| Rownderi/ pêl fas/pêl feddal | 21% | Pêl osgoi | 17% | Pêl fasged | 16% |
| Pêl fasged | 20% | Nofio | 16% | Rhedeg/ loncian | 15% |
| Criced | 19% | Dawns | 15% | Badminton | 11% |
| Nofio | 18% | Hoci | 13% | Criced | 11% |
| Tennis/tennis byr | 12% | Gymnasteg | 13% | Nofio | 10% |

Hoff gamp allgyrsiol y disgyblion cynradd yw pêl droed, ac felly hefyd y disgyblion uwchradd.

**Is-bennawd: Chwaraeon cymunedol**

Gofynnir i ddisgyblion pa chwaraeon maent yn cymryd rhan ynddynt mewn clybiau nad ydynt yn cymryd rhan ynddynt yn yr ysgol. Yn 2015, y chwaraeon mwyaf poblogaidd ymhlith yr holl ddisgyblion ym Mlynyddoedd 3-11 oedd pêl droed a nofio. Nid oedd hyn wedi newid yn 2018, gyda 25% o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn pêl droed a 27% yn nofio. Fodd bynnag, roedd y benywod yn ffafrio cymryd rhan mewn nofio, gyda'r gwrywod yn ffafrio cymryd rhan mewn pêl droed.

Dangosir y deg camp uchaf ar gyfer 2018 yn Nhabl 3.

**Tabl 3.** *Y chwaraeon cymunedol y mae'r disgyblion fwyaf tebygol o gymryd rhan ynddynt.*

| Camp/Gweithgaredd | Merched | Camp/Gweithgaredd | Bechgyn | Camp/Gweithgaredd | 'Arall' |
|---|---|---|---|---|---|
| Pêl droed | 37% | Nofio | 31% | Pêl droed | 21% |
| Nofio | 25% | Dawns | 26% | Nofio | 19% |
| Rygbi | 23% | Gymnasteg | 20% | Rhedeg/loncian | 14% |
| Rhedeg neu loncian | 16% | Rhedeg/loncian | 16% | Rygbi | 14% |
| Crefftau ymladd (e.e., jiwdo, carate) | 12% | Pêl rwyd | 15% | Crefftau ymladd (e.e., jiwdo, carate) | 12% |
| Athletau | 11% | Dosbarthiadau ffitrwydd | 13% | Dringo | 11% |
| Bocsio | 11% | Pêl droed | 13% | Bocsio | 11% |
| Criced | 11% | Athletau | 13% | Dawns | 10% |
| Dringo | 9% | Trampolinio | 10% | Athletau | 10% |
| Beicio | 9% | Marchogaeth ceffylau | 9% | Beicio | 10% |

## Is-bennawd: Cyfranogiad anffurfiol

Ar wahân i ystyried chwaraeon yn yr ysgol a chwaraeon mewn clybiau cymunedol, gofynnir i ddisgyblion a ydynt yn cymryd rhan yn y chwaraeon a'r gweithgareddau amrywiol yn 'rhywle arall' – er enghraifft, yn y parc gyda ffrindiau neu gartref. Mae hyn yn mesur eu cyfranogiad mewn gweithgarwch anffurfiol.

Dangosir y deg gweithgaredd uchaf y mae disgyblion fwyaf tebygol o fod yn cymryd rhan ynddynt ar wahân i chwaraeon yn yr ysgol neu mewn clwb cymunedol yn Nhabl 4 a Thabl 5 isod.

**Tabl 4.** *Y chwaraeon yr oedd disgyblion cynradd fwyaf tebygol o gymryd rhan ynddynt ar wahân i chwaraeon yn yr ysgol neu mewn clwb cymunedol.*

| Blynyddoedd 3-6 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| *Camp/Gweithgaredd* | Gwrywod | *Camp/Gweithgaredd* | Benywod | *Camp/Gweithgaredd* | 'Arall' |
| Rhedeg/loncian | 44% | Rhedeg/loncian | 45% | Rhedeg/loncian | 43% |
| Beicio | 42% | Beicio | 44% | Nofio | 40% |
| Pêl droed | 40% | Trampolinio | 38% | Beicio | 38% |
| Trampolinio | 37% | Nofio | 33% | Pêl droed | 36% |
| Nofio | 34% | Dringo | 27% | Dringo | 30% |
| Dringo | 28% | Gweithgareddau anturus | 25% | Parkour | 29% |
| Gweithgareddau anturus | 25% | Pêl droed | 24% | Trampolinio | 29% |
| Parkour | 25% | Dawns | 24% | Gweithgareddau anturus | 27% |
| Rygbi | 22% | Gymnasteg | 21% | Rownderi/ pêl fas/pêl feddal | 25% |
| Tennis bwrdd | 21% | Pêl fasged | 16% | Tennis/tennis byr | 18% |

**Tabl 5:** *Y chwaraeon yr oedd disgyblion uwchradd fwyaf tebygol o gymryd rhan ynddynt ar wahân i chwaraeon yn yr ysgol neu mewn clwb cymunedol.*

| Blynyddoedd 7-11 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| *Camp/Gweithgaredd* | Gwrywod | *Camp/Gweithgaredd* | Benywod | *Camp/Gweithgaredd* | 'Arall' |
| Rhedeg/loncian | 43% | Rhedeg/loncian | 49% | Rhedeg/loncian | 34% |
| Beicio | 40% | Nofio | 38% | Nofio | 34% |
| Pêl droed | 38% | Beicio | 37% | Beicio | 32% |
| Nofio | 36% | Trampolinio | 29% | Pêl droed | 26% |
| Beicio mynydd | 28% | Gweithgareddau anturus | 22% | Beicio mynydd | 24% |
| Trampolinio | 24% | Pêl droed | 21% | Trampolinio | 23% |
| Tennis bwrdd | 21% | Tennis bwrdd | 18% | Gweithgareddau anturus | 21% |
| Rygbi | 21% | Dringo | 17% | Parkour | 20% |
| Gweithgareddau anturus | 20% | Dawns | 17% | Dringo | 19% |
| Pêl fasged | 18% | Tennis/tennis byr | 16% | Tennis bwrdd | 18% |

## Crynodeb

Mae arolwg 2018 wedi dangos bod y lefelau cymryd rhan wedi aros yr un fath fel y gwelwyd yn 2015 ymhlith disgyblion yng Nghymru ym Mlynyddoedd 3-11. Mae gwahaniaethau hirhoedlog mewn lefelau cymryd rhan i’w gweld o hyd, gyda disgyblion benywaidd a disgyblion hŷn yn cymryd rhan yn llai aml mewn AG a chwaraeon.

Fodd bynnag, mae cynnydd wedi bod yng nghyfran y rhai ag anabledd neu nam sy’n cymryd rhan mewn chwaraeon dair gwaith neu fwy yr wythnos y tu allan i’r cwricwlwm. Mae hyn wedi lleihau’r bwlch cymryd rhan rhwng y rhai ag anabledd neu nam a’r rhai heb anabledd neu nam. Mae’r cyfraddau cymryd rhan wedi cynyddu hefyd ar gyfer grwpiau ethnig Asiaidd/Asiaidd Prydeinig ac Arab/Arall.

Mae’r bwlch mewn cyfraddau cymryd rhan rhwng Chwartel 1 Prydau Ysgol Am Ddim (lleiaf difreintiedig) a Chwartel 4 Prydau Ysgol Am Ddim (mwyaf difreintiedig) wedi cynyddu dau bwynt canran.

Am ragor o fanylion ewch i: www.arolwgchwaraeonysgol.org.uk